

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2024 No. 810

**Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr)
(Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024**

RHAN 6

Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

PENNOD 1

Cyflwyniad

22. Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(1) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

PENNOD 2

Person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir

23. Yn rheoliad 23C (personau y mae eu caniatâd i aros fel partner a ddiogelir wedi dod i ben)—

- yn y pennawd, yn lle “caniatâd i aros” rhodder “caniatâd i ddod i mewn neu i aros”;
- ym mharagraff (1)(a), yn lle “caniatâd iddo aros” rhodder “caniatâd iddo ddod i mewn neu aros”;
- ym mharagraff (1)(b)(ii), yn lle “caniatâd iddo aros” rhodder “caniatâd iddo ddod i mewn neu aros”;
- yn y geiriau ar ôl paragraff (1)(b)(ii), yn lle “caniatâd pellach i aros” rhodder “caniatâd pellach i ddod i mewn neu i aros”.

24. Yn rheoliad 80—

- ym mharagraff (2)(b)(ia), yn lle “caniatâd iddo aros” rhodder “caniatâd iddo ddod i mewn neu aros”;
- ym mharagraff (3), yn lle'r term “person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir” rhodder ““person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir” (“*person granted leave to enter or remain as a protected partner*”)”.

25. Yn rheoliad 81(3)(b)(ia), yn lle “caniatâd iddo aros” rhodder “caniatâd iddo ddod i mewn neu aros”.

26. Yn Atodlen 2, ym mharagraff 2ZB (categori 2ZB - personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel partner a ddiogelir a'u plant)—

- yn y pennawd, yn lle “caniatâd iddynt aros” rhodder “caniatâd iddynt ddod i mewn neu aros”;
- yn is-baragraff (1)(a), yn lle “caniatâd iddo aros” rhodder “caniatâd iddo ddod i mewn neu aros”;

(1) O.S. 2018/191 (Cy. 42), y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2022/79 (Cy. 28), O.S. 2022/764 (Cy. 166), O.S. 2023/633 (Cy. 97) ac O.S. 2023/1349 (Cy. 243). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

- (c) yn is-baragraff (2)(a), yn lle “caniatâd iddo aros” rhodder “caniatâd iddo ddod i mewn neu aros”;
- (d) yn is-baragraff (2)(b), yn lle “caniatâd iddo aros” rhodder “caniatâd iddo ddod i mewn neu aros”;
- (e) yn is-baragraff (2)(c), yn lle “caniatâd iddo i aros yn y Deyrnas Unedig” rhodder “caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi”;
- (f) yn is-baragraff (3)(a), yn lle “caniatâd iddo aros” rhodder “caniatâd iddo ddod i mewn neu aros”;
- (g) yn is-baragraff (3)(b)—
 - (i) yn lle “caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir” rhodder “caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir” ac yn lle “caniatâd iddo aros yn y Deyrnas Unedig” rhodder “caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi”;
 - (ii) yn lle “o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn o'r rheolau mewnfudo” rhodder “o dan unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau'r rheolau mewnfudo a bennir yn y naill neu'r llall o'r achosion a ganlyn”;
 - (iii) o flaen is-baragraff (i) mewnosoder—

“Achos 1

Yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo aros cyn 31 Ionawr 2024, unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn o'r rheolau mewnfudo—”;
 - (iv) ar ôl is-baragraff (vii) mewnosoder—

“Achos 2

Yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros ar neu ar ôl 31 Ionawr 2024, y naill neu'r llall o'r darpariaethau a ganlyn o'r rheolau mewnfudo—

 - (i) paragraff VDA 9.1 o'r Atodiad Dioddefwr Cam-drin Domestig, neu
 - (ii) paragraff BP 11.1 o'r Atodiad Partner sydd wedi cael Profedigaeth.”

27. Yn Atodlen 4—

- (a) ym mharagraff 13C—
 - (i) yn is-baragraff (1)(a), yn lle “caniatâd iddo aros” rhodder “caniatâd iddo ddod i mewn neu aros”;
 - (ii) yn is-baragraff (1)(b)(ii), yn lle “caniatâd iddo aros” rhodder “caniatâd iddo ddod i mewn neu aros”;
 - (iii) yn y geiriau sy'n dilyn is-baragraff (1)(b)(ii), yn lle “caniatâd pellach i aros” rhodder “caniatâd pellach i ddod i mewn neu i aros”;
- (b) ym mharagraff 14—
 - (i) yn is-baragraff (3)(b)(ia), yn lle “caniatâd iddo aros” rhodder “caniatâd iddo ddod i mewn neu aros”;
 - (ii) yn is-baragraff (4), yn lle'r term “person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir” rhodder ““person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir” (“*person granted leave to enter or remain as a protected partner*”);”.

28. Yn Atodlen 5, ym mharagraff 4—

- (a) yn is-baragraff (2)(aa), yn lle “caniatâd iddo aros” rhodder “caniatâd iddo ddod i mewn neu aros”;

(b) yn is-baragraff (3), yn lle'r term "person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir" rhodder "'person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir" ("*person granted leave to enter or remain as a protected partner*")".

29. Yn Atodlen 7, paragraff 1, yn Nhabl 16, yn lle'r diffiniad o "caniatâd i aros fel partner a ddiogelir" rhodder "caniatâd i ddod i mewn neu i aros fel partner a ddiogelir".